Meddwl am droi'n organig?

Sut i gael yr holl ffeithiau am ffermio organig a'r broses drawsnewid

Llinell Gymorth
Ffôn: 01970 622100
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

IBERS,
Prifysgol Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3EB
Tel: 01970 622248
Fax: 01970 622238
Ebost: organic@aber.ac.uk
www.canolfanorganigcymru.org.uk

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Meddwl am droi'n organig?

Mae ffermydd organig yn anelu at gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel mewn ffordd amgylcheddol-gyfeillgar er mwyn hyrwyddo iechyd a lles y pridd, planhigion, anifeiliaid, pobl a'r cefn gwlad. Mae cynhyrchwyr yn trawsnewid am nifer o resymau, ac mae'r goblygiadau'n wahanol ar gyfer pob system ffermio unigol. Os oes diddordeb gennych ac os dilynwch y camau hyn yn ofalus, bydd gennych ddealltwriaeth drwyadl o beth sydd angen ei wneud i drawsnewid a byddwch wedi cymryd mantais lawn o'r holl gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i benderfynu.

1 Deall beth sydd angen ei wneud

GWASANAETH
GWYBODAETH
TROSIADAU
Organig

Llinell Cymorth
Ffôn: 01970 622100
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Gall galwadau gael eu monitro er mwyn hyfforddiant.

Gwasanaeth rhad ac am ddim yw **Gwasanaeth Gwybodaeth Trawsnewid yn Organig (OCIS)**, heb unrhyw oblygiad o gwbl i drawsnewid. Caiff ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n

- eich helpu chi i edrych ar oblygiadau trawsnewid ar gyfer eich system ffermio;
- darparu darlun ariannol i roi peth syniad i chi o effaith economaidd trawsnewid;
- cefnogi ffermwyr sy'n penderfynu trawsnewid i baratoi eu ceisiadau i'w corff rheoli organig dewisedig (a alwyd o'r blaen yn gorff ardystio).

Mae OCIS yn cynnwys mynediad i linell gymorth ffôn, pecyn gwybodaeth ac ymweliadau ymgynghorol ar y fferm. Ffoniwch linell gymorth Canolfan Organig Cymru (COC) am fwy o fanylion neu www.canolfanorganigcymru.org.uk.

2 Cynllunio'n ofalus

Gall Cyswllt Ffermio dalu 80% o'r gost o baratoi Cynllun Fferm Gyfan, a ellir ei ddefnyddio i ddarparu **cynllun trawsnewid yn organig manwl** sy'n cynnwys y system ffermio a goblygiadau ariannol trawsnewid. Gall Cydlynwyr Cynllun Fferm Gyfan Cyswllt Ffermio sydd wedi'u lleoli yn eich Swyddfa Ranbarthol Leol a staff COC eich helpu i benderfynu ar faint a chynnwys eich cynllun a nodi mentoriaid addas i wneud y gwaith. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig cefnogaeth i fusnesau cymwys i gyfarfod anghenion traws-gydymffurfiad a rheoliadau amgylcheddol.

3 Ewch allan yno!

Nid oes dim gwell na chyfarfod ffermwyr organig profiadol a chynhyrchwyr eraill sydd hefyd yn trawsnewid eu systemau. Mae COC yn cyflwyno'r Rhaglen Datblygu Organig Cyswllt Ffermio sy'n cynnwys **fferm arddangos**, a **digwyddiadau grwpiau trafod ar gyfer ffermwyr**, **cynadleddau**, **seminarau**, **gweithdai** a mathau eraill o gyfleoedd dysgu. Mae llawer o'r digwyddiadau hyn yn cael eu rhedeg gyda Chanolfan Datblygu Glaswelltir (GDC) sydd wedi'i leoli yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth.

Mae Cyswllt Ffermio wedi sefydlu Rhaglen Datblygu Sgiliau sy'n galluogi busnesau ffermio a choedwigaeth cymwys i hawlio **80% o gyllid tuag at hyfforddiant galwedigaethol a rheolaethol**. Mae **hyfforddiant amaeth-amgylcheddol** (e.e. creu a chynnal cynefinoedd ar y fferm, tirwedd ac ansawdd dŵr) yn cael ei gyllido'n llawn ac mae ar gael i ddeiliaid cytundeb Tir Gofal.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu digwyddiadau ar y Cynllun Rheoli Tir newydd, Glastir. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno drwy Gymru i helpu ffermwyr i adnabod cynefinoedd a dewisiadau priodol ar eu ffermydd er mwyn cwblhau eu ceisiadau. Cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol leol am fanylion.

Mae COC yn cydlynu mannau organig yn **Sioe Frenhinol Cymru** ac yn **y Ffair Aeaf** ac mae ganddynt bresenoldeb yn y prif ddigwyddiadau amaethyddol a sioeau rhanbarthol eraill.

Mae'r Ganolfan Ymchwil Organig yn Elm Farm hefyd yn cynnal rhwydwaith o ffermydd arddangos yn Lloegr, ac mae gan y Gymdeithas Bridd rwydwaith o ffermydd organig sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr.

4 Darllennwch y cyfan amdano

Mae amrediad o gyhoeddiadau ar gael o COC, yn cynnwys canllawiau technegol, taflenni gwybodaeth a **gwybodaeth am bob agwedd o fwyd a ffermio**. Ymwelwch â'n **gwefan** www.canolfanorganigcymru.org.uk am fwy o fanylion, llawrlwythiadau yn rhad ac am ddim ac i danysgrifio i ddau o **fwletinau e-bost rhad ac am ddim**. Mae *Soil Association* hefyd yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau technegol, a chylchgrawn, *Organic Farming*, sy'n cynnwys eitemau technegol a newyddion. Mae *Organic Farmers and Growers* hefyd yn darparu pecyn gwybodaeth ar gyfer ffermwyr a chylchlythyrau rheolaidd. Mae gwybodaeth dechnegol arall ar gael o'r Ganolfan Ymchwil Organig, Elm Farm.

5 Gwnewch gais am gefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig wedi darparu cyllid ar gyfer **cefnogi trawsnewid yn organig**. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o ganiatáu cyfnodau ar gyfer ceisiadau yn 2010 a 2011, ac fe fydd rhaid i chi gyflwyno'ch cais yn ystod y cyfnodau hyn, a fydd yn rhaid cael ei gefnogi gan gynllun trawsnewid amlinellol. Cysylltwch â'ch swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru lleol neu COC am y wybodaeth ddiweddaraf neu wefan www.canolfanorganigcymru.org.uk.

6 Edrychwch ar eich dewisiadau marchnata

Os dymunwch gael premiwm organig am eich cynnyrch, fe fydd yn rhaid i chi ddeall y gwahanol lwybrau i gyrraedd y farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio drwy **grwpiau cynhyrchu**, **grwpiau cydweithredol**, **gwerthiant uniongyrchol neu archfarchnadoedd**. Mae COC yn cynnig gwybodaeth farchnata a chefnogaeth drwy brosiect Cysylltiadau Busnes Organig Gwell (BOBL). Mae Adran Fwyd, Pysgodfeydd a Datblygu Marchnadoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig **cefnogaeth ar gyfer datblygiad marchnata a phrosesu organig**.

7 Cael ardystio eich fferm

Mae ardystio yn broses hollol wahanol i wneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am daliadau cefnogaeth. Fodd bynnag, mae taliadau cefnogaeth yn amodol ar y tir yn cael ei ardystio ac yn aros felly trwy gydol cyfnod eich cytundeb. Fe fydd hyn yn golygu cofrestru gyda chorff rheoli organig, gyda ffi'n daladwy, ac fe fydd yn golygu archwiliadau blynyddol a chynnydd yn y cofnodion y bydd yn rhaid i chi eu cadw. Mae lleiafswm safonau organig yn cael eu gosod gan yr Undeb Ewropeaidd, ac yn cael eu gweithredu gan gyrff rheoli organig cofrestredig. Cysylltwch â COC am restr o gyrff rheoli i ddewis ohonynt neu wefan www.canolfanorganigcymru.org.uk.

Mae Canolfan Organig Cymru (COC), a sefydlwyd yn 2000, yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn bod yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Mae'r Ganolfan yn cael ei chynnal gan bartneriaeth o dri sefydliad: ADAS Cymru; Y Ganolfan Ymchwil Organig, Elm Farm; a Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (SGBAG) ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH
Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences

Mawrth 2010

Ni all Canolfan Organig Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw weithredu a wneir ar sail ei gyhoeddiadau.